**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol (Cymru) 2023.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Hannah Blythyn AS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**

**6 Medi 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("DPGCSB 2022") yn gwneud darpariaethau i ymdrin â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus. Cafodd DPGCSB 2022 ei gwneud yn dilyn canfyddiad yn achos yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref a Gweinidogion Cymru v Sargeant ac Eraill ([2018] EWCA Civ 2844) bod diogelwch trosiannol mewn cynlluniau pensiynau diffoddwyr tân diwygiedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Yng nghyd-destun pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru, nodwyd y darpariaethau hynny yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015[1], ("Cynllun 2015").

1.2 Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i weithredu ail gam y rhwymedi a nodir yn DPGCSB 2022. Maent yn dilyn y cam cyntaf, a weithredwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 (OS 2022/343 (Cy.85)).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi mai'r rheoliadau hyn yw'r ail set o reoliadau sy'n ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân y mae Gweinidogion Cymru wedi eu gwneud o dan DPGCSB 2022. Roedd y rheoliadau cyntaf "Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022" yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â throsglwyddo'r holl aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, fel y'i nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992[2], ac o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007, fel y'i nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007[3], i'r cynllun diwygiedig (Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015) o 1 Ebrill 2022). Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hynny ar gael yma.

2.2 Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 01 Hydref 2023. Fodd bynnag, maent yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol o ganlyniad i'r dychweliad ôl-weithredol i gynlluniau pensiwn gwaddol ar gyfer gwasanaeth rhwymedïol diffoddwyr tân o dan adran 2(1) o DPGCSB 2022. Gwneir darpariaeth ôl-weithredol yn y Rheoliadau hyn yn unol ag adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013").

2.3 Mae gwneud darpariaeth benodol yn y Rheoliadau hyn, o dan DPGCSB 2022, yn ddarostyngedig i ofynion a nodir yng Nghyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a

[1] OS 2015 rhif 622 / Cy.50
[2] OS 1992 rhif 129
[3] OS 2007 rhif 1072 / Cy.110

Gwybodaeth) 2022. Mae darpariaethau perthnasol y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r Cyfarwyddydau hynny.

2.4 Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i gydsyniad y Trysorlys. Crëwyd y gofyniad hwn gan adran 94 o DPGCSB 2022, ac roedd yn destun datganiad o dan Reol Sefydlog 30 a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 12 Awst 2021.

2.5 Mater i'r Trysorlys yw'r broses ar gyfer rhoi cydsyniad. Yn yr achos hwn, rhoddwyd cydsyniad drwy i ddau o Arglwydd Gomisiynwyr y Trysorlys lofnodi eu cydsyniad ar yr offeryn.

2.6 Yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu gynrychiolwyr y personau hynny) y bydd y Rheoliadau hyn yn debygol o effeithio arnynt ym marn Gweinidogion Cymru.

2.7 Gan fod pensiynau galwedigaethol yn fater a gadwyd yn ôl, nid oedd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau yn DPGCSB 2022.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol i DPGCSB 2022 i ymdrin ag aelodaeth o gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yn ystod y "cyfnod rhwymedi" (h.y., 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022).

3.2 Rhoddir pwerau Gweinidogion Cymru i wneud y Rheoliadau hyn gan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 2013, fel y'u diwygiwyd gan DPGCSB 2022. Fe'u gwneir hefyd o dan adrannau 5, 6, 7, 8, 10, 11, 12, 18, 19,20, 21, 22, 24, 25, 26, 29 a 31 o DPGCSB 2022.

3.3 Mae'r ddarpariaeth a wneir o dan y pwerau a grybwyllwyd uchod yn cael ei gwneud, lle y bo'n berthnasol, yn unol â gofynion Cyfarwyddydau Pensiynau’r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a Gwybodaeth) 2022.

3.4 Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir y Rheoliadau gyda chydsyniad y Trysorlys.

3.5 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol i gywiro'r sefyllfa a grëwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, a oedd yn darparu ar gyfer diogelwch trosiannol i garfanau penodol o aelodau o gynlluniau gwaddol y cafwyd eu bod yn gwahaniaethu'n

anghyfreithlon rhwng aelodau ar sail oedran. Aelodau'r cynlluniau gwaddol yw'r unigolion hynny sy'n aelodau o Gynllun 1992 a Chynllun 2007.

4.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ganlyniad i, ac mewn perthynas â, dychwelyd (drwy adran 2(1) o DPGCSB 2022) yr aelodau yr effeithiwyd arnynt i'w cynlluniau gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwymedi a sefydlu'r mecanweithiau i'r aelodau allu dewis (ar adeg eu hymddeoliad, neu ar unwaith i'r rhai sydd eisoes wedi ymddeol) y cynllun sy'n gymwys i'w gwasanaeth yn ystod y cyfnod rhwymedi.

4.3 Mae Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill wedi ymgynghori ar gynigion tebyg sy'n cwmpasu holl weithwyr eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU.

4.4 Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud diwygiadau fel a ganlyn:

Mae **Rhan 1** yn nodi'r darpariaethau rhagarweiniol, gan gynnwys y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym a dehongliad o'r termau a ddefnyddir drwyddi draw.

Mae **Rhan 2** o’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd ac i bwy y mae datganiad o wasanaeth rhwymedïol i’w ddarparu gan y rheolwr cynllun, yn ogystal â chynnwys y datganiad o wasanaeth rhwymedïol.

Mae **Rhan 3** yn gwneud darpariaeth ynghylch y prif benderfyniadau y caniateir eu gwneud mewn perthynas â gwasanaeth rhwymedïol aelod—

(a) Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y caniateir gwneud dewisiad i adfer gwasanaeth yr optiodd aelod allan o gynllun pensiwn diffoddwyr tân mewn cysylltiad ag ef a’i drin fel gwasanaeth rhwymedïol;

(b) Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y caniateir gwneud penderfyniad, neu farnu bod penderfyniad wedi ei wneud, ynghylch a yw gwasanaeth rhwymedïol aelod-bensiynwr neu aelod ymadawedig (“aelod dewis ar unwaith”) i’w drin fel gwasanaeth yng nghynllun gwaddol yr aelod neu yng nghynllun 2015;

(c) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth debyg i Bennod 2, ond mewn perthynas â gwasanaeth rhwymedïol aelod actif neu aelod gohiriedig .

Mae **Rhan 4** yn gwneud darpariaeth ynghylch achosion pan fo’r hawliau pensiwn a sicrhawyd yn rhinwedd gwasanaeth rhwymedïol aelod o dan ystyriaeth mewn achos sy’n ymwneud ag aelodau sy’n cael ysgariad neu sy’n diddymu partneriaeth sifil—

(a) Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwerth hawliau o'r fath o dan orchymyn rhannu pensiwn pan fônt yn ddarostyngedig i ddebyd pensiwn o dan adran 29 o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30). Mae’n darparu, yn benodol, ar gyfer cyfrifo gwerth neu, pan fo hynny’n briodol, ailgyfrifo gwerth debyd pensiwn a chredyd pensiwn mewn perthynas â’r hawliau;

(b) Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo gwerth hawliau at ddibenion rhannu'r hawliau hynny o dan drefniant heblaw gorchymyn rhannu pensiwn.

Mae **Rhan 5** yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraniadau gwirfoddol ar ffurf cyfandaliad a dalwyd gan aelod yn ystod cyfnod ei wasanaeth rhwymedïol, a chyfraniadau cyfnodol a dalwyd gan aelod o dan drefniant a ddechreuodd yn ystod cyfnod ei wasanaeth rhwymedïol, er mwyn sicrhau hawliau pensiwn pellach, a threfniadau ôl-weithredol er mwyn sicrhau'r hawliau pellach hynny mewn cysylltiad â gwasanaeth rhwymedïol aelod—

(a) mae rheoliad 30 yn gwneud darpariaeth y mae digollediad i'w dalu odani mewn perthynas â chyfraniadau gwirfoddol a ddefnyddiwyd i sicrhau hawliau i bensiwn ychwanegol cynllun 2015 yn ystod cyfnod ei wasanaeth rhwymedïol;

(b) mae rheoliad 31 yn gwneud darpariaeth y mae digollediad i'w dalu odani mewn perthynas â chyfraniadau gwirfoddol a ddefnyddiwyd i sicrhau hawliau i flynyddoedd ychwanegol cynllun gwaddol yn ystod cyfnod ei wasanaeth rhwymedïol pan fo'r buddion sydd i'w talu mewn perthynas â gwasanaeth rhwymedïol aelod yn fuddion cynllun 2015;

(c) mae rheoliad 32 yn gwneud darpariaeth y caiff aelod a chanddo wasanaeth rhwymedïol yng nghynllun 2015 wneud dewisiad odani i ymrwymo i drefniant ôl-weithredol i sicrhau blynyddoedd ychwanegol yng nghynllun gwaddol yr aelod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth rhwymedïol hwnnw.

Mae **Rhan 6** yn gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn i gynllun pensiwn diffoddwyr tân ac allan o gynllun o'r fath yn ystod cyfnod gwasanaeth rhwymedïol aelod—

(a) Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch, ymhlith pethau eraill, ddarparu datganiad o wasanaeth rhwymedïol i berson a chanddo hawliau a drosglwyddwyd allan mewn cysylltiad â gwasanaeth rhwymedïol ac nad yw'n ofynnol fel arall i ddatganiad o wasanaeth rhwymedïol gael ei ddarparu mewn cysylltiad ag ef;

(b) Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddiadau i mewn i gynllun pensiwn diffoddwyr tân ac allan o gynllun o'r fath ar sail cyfwerth ariannol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch cyfrifo gwerth (a, phan fo hynny'n briodol, ailgyfrifo gwerth) gwerth trosglwyddo cyfwerth ariannol, a gwneud a derbyn taliadau mewn perthynas â gwerth trosglwyddo hawliau a sicrhawyd yn rhinwedd gwasanaeth rhwymedïol;

(c) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth debyg i Bennod 2, ond mewn perthynas â throsglwyddiadau i mewn i gynllun pensiwn diffoddwyr tân ac allan o gynllun o'r fath ar sail clwb;

(d) Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

   (i) trin trosglwyddiadau i mewn i gynllun 2015 mewn cysylltiad â hawliau a sicrhawyd yn rhinwedd gwasanaeth rhwymedïol fel pe baent wedi eu trosglwyddo i mewn i gynllun gwaddol yr aelod pan fo'r buddion a ddaw'n daladwy mewn cysylltiad â gwasanaeth rhwymedïol yr aelod yn fuddion cynllun gwaddol;

(ii) rhoi neu amrywio hawliau yng nghynllun gwaddol aelod i adlewyrchu newid yng ngwerth yr hawliau hynny yn rhinwedd DPGCSB 2022 a’r Rheoliadau hyn;

(iii) cywiriadau ariannol i unrhyw fuddion pensiwn a dalwyd mewn cysylltiad â hawliau a drosglwyddwyd i mewn aelod dewis ar unwaith.

Mae **Rhan 7** yn gwneud darpariaeth ynghylch ymddeol ar sail afiechyd—

(a) Mae rheoliad 53 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr achosion pan fernir bod aelod a oedd yn bodloni’r gofynion ar gyfer dyfarniad ymddeol ar sail afiechyd mewn un cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn bodloni’r gofynion yn ei gynllun pensiwn diffoddwyr tân amgen;

(b) mae rheoliad 54 yn gwneud darpariaeth y mae aelod sydd wedi cael dyfarniad ymddeol ar sail afiechyd o dan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i’w asesu odani o ran ei gymhwystra i gael dyfarniad haen uchaf yng nghynllun 2015.

Mae **Rhan 8** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag achosion pan fo person eisoes wedi cael rhwymedi mewn perthynas â’i wasanaeth rhwymedïol. Trinnir personau o’r fath at ddibenion DPGCSB 2022 a’r Rheoliadau hyn fel pe baent yn aelod dewis ar unwaith sydd wedi gwneud dewisiad i gael buddion cynllun gwaddol mewn perthynas â’i wasanaeth rhwymedïol.

Mae **Rhan 9** yn gwneud darpariaeth ynghylch unrhyw symiau (“symiau perthnasol”) sy’n ddyledus i berson neu gan berson o ganlyniad i DPGCSB 2022 neu’r Rheoliadau hyn—

(a) Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo’r llog ar symiau perthnasol, ar gyfer cynyddu buddion yn lle talu swm perthnasol, ar gyfer gwneud cais pan fo person yn dymuno hawlio digollediad, ac ar gyfer netio symiau perthnasol sy’n ddyledus i berson a chan berson;

(b) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch lleihau a hepgor symiau perthnasol, ac yn benodol ofyniad i’r rheolwr cynllun leihau rhai symiau perthnasol yn ôl symiau rhyddhad treth, y gofyniad i’r rheolwr cynllun hepgor symiau sy’n ddyledus gan oroeswyr perthnasol a phersonau perthnasol sydd wedi gwahanu, disgresiwn y rheolwr cynllun i leihau neu hepgor symiau perthnasol sy’n ddyledus gan berson i gynllun o dan amgylchiadau penodol, a’r opsiwn i ohirio talu symiau perthnasol penodol sy’n ddyledus i aelod hyd nes y gwneir dewisiad mewn perthynas â gwasanaeth rhwymedïol yr aelod;

(c) Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y mae rhaid talu symiau perthnasol.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae adran 21(1) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n gyfrifol am wneud rheoliadau'r cynllun (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) ymgynghori â'r rhai y mae'n debygol y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt, a/neu eu cynrychiolwyr, cyn gwneud unrhyw reoliadau. Mae adran 21(2) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r personau y byddent fel arfer yn disgwyl ymgynghori â hwy o dan is-adran (1) a chadw'r datganiad yn gyfredol.

5.2 Cyhoeddwyd datganiad sy'n cydymffurfio ag adran 21(2) o Ddeddf 2013 ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae ar gael yma.

5.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y rheoliadau drafft rhwng 31 Mawrth 2023 a 23 Mehefin 2023. Trafodwyd yr ymgynghoriad ym Mwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân[4] a chafodd ei ddwyn i sylw sefydliadau sy'n cynrychioli staff y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ynghyd â rheolwyr cynlluniau a gweinyddwyr cynlluniau perthnasol. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu hefyd â fforwm sydd ar gael i ddiffoddwyr tân sydd wedi ymddeol.

5.4 Mae pob ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys ar y rhain a rheoliadau eraill y cynllun, ar gael i'r cyhoedd ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i sefydliadau penodol. Gall unrhyw sefydliad neu unigolyn eu darllen ac ymateb iddynt os dymunant; rydym yn ceisio drafftio dogfennau ymgynghori mewn ffyrdd sy'n hygyrch i aelodau unigol y cynllun yn ogystal ag i'w cyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol.

5.5 Cafodd Llywodraeth Cymru 18 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymatebion hynny gan dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, sefydliadau cynrychioliadol ac undebau llafur sy'n cynrychioli staff yr Awdurdodau Tân ac Achub, Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Heywood Pension Technologies, ynghyd â deg o unigolion.

5.6 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Roedd cytundeb cyffredinol bod y rheoliadau drafft yn bodloni'r gofynion a nodir yn DPGCSB 2022; sef gwneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau dychwelyd aelodau i'w cynlluniau gwaddol a'r mecanwaith a ddewisir, er mwyn sicrhau bod rheolau'r cynllun cywir yn gymwys i hawliau pensiwn, buddion a chyfraniadau ar gyfer y cyfnod rhwymedi. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau am sawl maes:

- Y goblygiadau ymarferol o ran yr amser a gynhwysir yn ein rheoliadau drafft i ganiatáu digon o amser i'r Awdurdodau Tân ac Achub allu prosesu'r penderfyniad angenrheidiol sy'n cael ei wneud.

- Y cymhwystra optio i mewn ar gyfer diffoddwyr tân a optiodd allan yn ystod y cyfnod rhwymedi ond a optiodd i mewn eto wedi hynny; ac aelodau'r system ar ddyletswydd yn ôl y galw (RDS) na fyddent wedi cael eu hailgofrestru'n awtomatig oherwydd bod eu cyflog o dan £10,000 y flwyddyn.

- Yr ymdriniaeth ag achosion o ymddeol ar sail afiechyd a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod rhwymedi, yn enwedig aelodau a ddylai fod â hawl ond y gwrthodwyd eu hachos.

[4] Aelodau'r Bwrdd yw: tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru; Undeb y Brigadau Tân;Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r Cadeirydd yn annibynnol ar yr holl sefydliadau hyn ac ar Lywodraeth Cymru.

- Cywiriadau y mae angen eu gwneud i ymdrin ag anghysonderau drafftio.

5.7 Mae newidiadau wedi eu gwneud i ymdrin â'r materion a nodwyd, os na ddarparwyd ar gyfer y rheini fel arall yn y rheoliadau drafft.

5.8 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

[Diwygio cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru 2023 | LLYW.CYMRU]

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Opsiynau

6.1 Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Dirprwy Weinidog fel a ganlyn:-

**Opsiwn 1. Gwneud Dim –** Mae DPGCSB 2022 yn darparu ar gyfer dychwelyd gwasanaeth cyfnod rhwymedi aelodau cymwys i fuddion cynllun gwaddol ar 1 Hydref 2023, a hynny'n ôl-weithredol. Rhaid i reoliadau'r cynllun fod ar waith ar y dyddiad hwnnw i ymdrin â goblygiadau gweithredu DPGCSB 2022, ac fel sy'n ofynnol gan DPGCSB. Byddai methu â gwneud y Rheoliadau gweithredu hyn yn arwain at fethiant yng ngweithrediad rhai agweddau ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru ac yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn mynd yn groes i'w rhwymedigaethau fel yr awdurdod cyfrifol ar gyfer cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru.

Ar ben hynny, mae'r Rheoliadau hyn, ynghyd â DPGCSB 2022, yn darparu rhwymedi i'r unigolion hynny a oedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol cynllun pensiwn diffoddwyr tân 2015, y cafodd y Llys Apêl ei fod yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran.

Heb y Rheoliadau hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn torri ei rhwymedigaethau i unioni gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Byddai hefyd yn golygu y byddai diffoddwyr tân yng Nghymru mewn sefyllfa wahanol a gwaeth na diffoddwyr tân (a gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru) yng ngweddill y DU.

**Opsiwn 2. Gwneud Rhywbeth–** Roedd DPGCSB 2022 a Chyfarwyddydau dilynol gan y Trysorlys yn rhagnodol o ran nodi'r manylion y byddai angen i gynlluniau eu cynnwys mewn rheoliadau rhwymedïol ôl-weithredol.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu rheolau cynlluniau sy'n ofynnol gan DPGCSB 2022. Fodd bynnag, ceir meysydd lle mae gan yr awdurdod cyfrifol y pŵer i arfer disgresiwn. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am bensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru, felly mae penderfyniadau ynghylch rhai o'r manylion o ran sut y caiff y rhwymedi ei roi ar waith mewn rheoliadau ar gyfer y cynlluniau hynny yn faterion i Weinidogion Cymru.

Byddai cyflwyno rheoliadau a fyddai'n gwneud dim ond cydymffurfio â gofynion gorfodol DPGCSB 2022 a Chyfarwyddydau'r Trysorlys yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodwyd ar Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n ymdrin â goblygiadau nodweddion unigryw cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, megis gwahaniaethau mewn oedran pensiwn arferol a chyfraddau cyfrannu ar gyfer y gwahanol gynlluniau.

**Opsiwn 3. Gwneud y Ddeddfwriaeth** gan ddefnyddio'r pwerau rhagnodol a'r pwerau disgresiwn yn DPGCSB 2022. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn cael eu rhoi yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai'r gwahaniaethu wedi digwydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau naturiol dychwelyd i gynlluniau gwaddol.

## 7. Costau a manteision

### Costau

7.1 Mae pensiynau diffoddwyr tân yn cael eu hariannu gan gyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, ynghyd â grant Gwariant Blynyddol a Reolir gan y Trysorlys, a ddefnyddir i ychwanegu at y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant y cynllun.

7.2 Bydd y rhwymedi yn arwain at daliadau cynyddol i aelodau cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus dros y 5-6 degawd nesaf, ond mae'n rhy gynnar i wneud asesiad o'r costau cyffredinol hynny. Mae nifer o gostau i'w hystyried:-

i. ***Costau Cyffredinol y Cynlluniau*** – bydd y cynnydd ym muddion aelodau a chostau eraill y cynllun yn cael eu talu drwy gyfrifon pensiwn y Gwasanaethau Tân ac Achub. Bydd unrhyw ddiffyg rhwng y cyfraniadau a dderbynnir a'r buddion a delir yn cael ei ariannu gan Drysorlys EF drwy wariant a reolir yn flynyddol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, bydd costau hirdymor y rhwymedi yn cael eu hystyried ym mhrisiadau cynlluniau yn y dyfodol, a fydd yn effeithio ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

ii. ***Costau aelodau*** – bydd unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau cyflogeion yn cael ei gydbwyso gan y buddion y bydd aelodau'n eu derbyn wrth ymddeol.

iii. ***Costau cyflogwyr –*** fel y nodir uchod, bydd cost y rhwymedi yn cael ei hadlewyrchu ym mhrisiadau cynlluniau yn y dyfodol, ac yn cael ei hadlewyrchu yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

iv. ***Costau gweinyddol*** - mae'n debygol y bydd gan gyflogwyr rai costau gweinyddu sylweddol uwch oherwydd gofynion meddalwedd newydd. Byddai angen cynnwys hyn yng nghynlluniau cyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub.

v. ***Costau digolledu*** - mae adran 23 o DPGCSB 2022 yn darparu ar gyfer trefniadau cynllun digolledu, yn unol â Chyfarwyddydau'r Trysorlys. Bydd costau digolledu sy'n gysylltiedig â chywiro buddion pensiwn aelodau, cyfraniadau a llog, treth sydd wedi ei gordalu, ac ar gyfer colledion ariannol, yn cael eu hariannu gan y Trysorlys drwy wariant a reolir yn flynyddol.

**Manteision**

7.3 Prif fanteision y diwygiadau arfaethedig yw dileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon sydd wedi digwydd. Bydd pob aelod cymwys yn cael ei roi yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi ac yn cael yr hawliau pensiwn y byddai ganddo'r hawl iddynt, pe na bai'r gwahaniaethu wedi digwydd. Yn y bôn, bydd pob diffoddwr tân yn cael ei drin yr un fath. Mae manteision allweddol ein cynigion fel a ganlyn:

- Bydd pob diffoddwr tân yr effeithiwyd arno gan wahaniaethu yn dychwelyd i'w hen gynlluniau "gwaddol" ar gyfer y cyfnod rhwymedi o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.
- Bydd **dull dewis** ar gael i bob aelod sy'n gymwys i gael rhwymedi. Mae hynny'n cynnwys aelodau iau o gynlluniau, nad oeddent wedi eu diogelu'n wreiddiol o dan drefniadau diogelwch trosiannol cynllun 2015, a diffoddwyr tân hŷn a oedd wedi eu diogelu. Bydd aelodau cymwys yn gallu dewis rhwng buddion y cynllun gwaddol a buddion cynllun 2015 ar gyfer y cyfnod rhwymedi. Ni fydd rhaid i aelodau nad ydynt eto wedi cyrraedd adeg ymddeol ddewis pa fuddion y maent am eu derbyn, hyd nes y byddant yn ymddeol.
- Bydd aelodau â hawl a gafodd **Ymddeol ar sail Afiechyd** yn ystod y cyfnod rhwymedi yn cael eu hailasesu yn erbyn meini prawf eu cynllun gwaddol neu Gynllun 2015, fel y bo'n briodol, a chynigir dewis ar unwaith iddynt rhwng yr hawlogaethau sy'n deillio o hynny.

**Crynodeb**

7.4 Opsiwn 3 yw'r unig opsiwn sy'n gwneud rhwymedi llawn am y gwahaniaethu a nodwyd ac sy'n darparu ar gyfer canlyniadau dychweliad aelodau i'w cynlluniau gwaddol.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Amherthnasol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Gwneir hyn drwy Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, lle bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion yn cael cyfle i godi materion yn ymwneud â'r rheoliadau eu hunain a'r trefniadau ymarferol ar gyfer eu rhoi ar waith.